

<b>Pwyllgor</b>	Pwyllgor Craffu Cymunedau
<b>Dyddiad</b>	27 Hydref, 2022
<b>Teitl</b>	Strategaeth Llifogydd Lleol
<b>Aelod Cabinet</b>	Y Cyngorydd Berwyn Parry Jones
<b>Awdur</b>	Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol / YGC
<b>Pwrpas</b>	Diweddariad ar y Strategaeth Llifogydd Lleol

## 1. Cyflwyniad

Mae newid yn ein hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar lifogydd a graddfeydd erydiad gan i lefelau môr fod yn codi a stormydd a chynnodau o law trwm yn mynd yn fwy dwys ac yn digwydd yn fwy rheolaidd.

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ac mae'r cynllun yn cyfeirio at sut yr ydym fel Cyngor am ymateb i effeithiau newid hinsawdd, sydd yn cynnwys effeithiau llifogydd. Bydd y Strategaeth Llifogydd Lleol a'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn cyd-redeg, ac yn helpu i wireddu targedau'r naill a'r llall.

Mae Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn golygu llawer mwy nag adeiladu amddiffynfeydd. Mae ein dull o reoli risg yn annog gwydnwch ehangach, gwaith atal ac ymwybyddiaeth o risg fel bod modd gwneud penderfyniadau gwell, gan y cyhoedd a'r rhai sy'n dylanwadu ar sut y rheoli'r tir a dŵr.

Mae Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yn un o ofynion y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ac mae'n rhaid iddynt fod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol a gyhoeddwyd y llynedd. Mae gofyn i ni adolygu Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yng Nghymru (er y rhai gwreiddiol yn 2013) er mwyn cyd-fynd ag amcanion, mesurau a pholisïau a deddfwriaeth gysylltiedig y Strategaeth Genedlaethol newydd.

Rydym angen cwblhau'r dasg yma erbyn Hydref 2023.

## 2. Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol

O fewn y papur hwn rydym yn cyflwyno sut ydym yn bwriadu llunio'r strategaeth leol a beth fydd ei chynnwys.

Mae cyfrifoldebau am liniaru risgiau llifogydd yn rhanedig rhwng y Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Er mwyn eglurder y bwriad yw ffurfio strategaeth llifogydd lleol sydd yn cynnwys oll risgiau i drigolion Gwynedd.

Mae'n hanfodol i ni gysidro'r risgiau yma i Wynedd a drwy hyn yn gweld y risgiau wedi ei rhannu yn rhai **arfordirol** a **mewndirol**. Mae hyn oherwydd; natur y risg a'r gallu i'w liniaru; gwahaniaeth mewn rolau/cyfrifoldebau statudol a goddefol, polisïau a strategaethau (gan gynnwys rhai asiantaethau eraill) ynghyd a gwahaniaethau yn strwythur ariannu prosiectau gan Lywodraeth Cymru.

## **Gweithredu ar Risgiau Mewndirol**

Mae Gwynedd wedi ei rannu yn 15 dalgylch afonol. Mae posib blaenoriaethu'r rhain yn ôl risg damcaniaethol o wybodaeth mapiau Cyfoeth Naturiol Cymru, gan hefyd gymryd i ystyriaeth y wybodaeth mae'r Adran yn ei gasglu ar ôl pob digwyddiad o lifogydd mewn tai yng Ngwynedd. (Mae casglu'r wybodaeth yma yn rôl statudol o dan Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 - fe'i gelwir yn adroddiadau Adran 19).

Ar sail y blaenoriaethau hyn felly, mae'r Adran yn llunio cynlluniau dalgylchol, sy'n aml yn cynnwys sawl cynllun bach a mawr ar hyd a lled y dalgylch. Mae hyn yn newid sylfaenol i'r ffordd roedd cynlluniau llifogydd yn cael eu llunio yn y gorffennol.

Yn ychwanegol, mae'r Adran yn ceisio manteisio ar gyfleoedd i ychwanegu at werth y cynlluniau hyn drwy ymgorffori elfennau pellach sy'n ychwanegu gwerth i'r cynllun (er nad yw'r elfennau hyn yn lleihau risgiau llifogydd yn uniongyrchol).

Caiff y cynlluniau dalgylchol hyn eu datblygu yn ddilynol fel rhan o raglen waith yr Adran ac yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

Bydd y risgiau o fewn dalgylchoedd yn cael eu hadolygu yn rheolaidd fel gallwn adlewyrchu gwaith rydym wedi ei gwblhau i leihau risgiau llifogydd mewn ardaloedd penodol. Er enghraifft, rydym wedi cwblhau gwaith yn ddiweddar yn Llanberis felly mae angen mecanwaith i gofnodi effaith hyn yn y flaenoriaeth. Mae hyn yn cael ei drafod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd i ystyried addasu eu gwybodaeth ddamcaniaethol nhw i ystyried effaith ein cynlluniau ni o fewn y flaenoriaeth.

## **Gweithredu ar Risgiau Llifogydd Arfordirol**

Mae gan Wynedd yr arfordir mwyaf yng Nghymru ac oherwydd natur ein tirwedd mae canran uchel o'n cymunedau, a'r isadeiledd sydd yn eu gwasanaethu nhw, ar yr arfordir.

Mae'r cyfrifoldeb am risgiau arfordirol yn ddryslyd gan fod gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Awdurdodau Lleol rôl i'w chwarae ac mae gennym fel Cyngor oddeutu 21km o asedau arfordirol sydd yn amddiffyn ein trigolion o'r môr.

Rydym wedi blaenoriaethu ein harfordir ar sail risg. Rydym fel Cyngor yn datblygu cynlluniau ac wedyn yn eu cyflwyno trwy drefniadau arferol i Lywodraeth Cymru (LLC).

Rydym wedyn wedi casglu gwybodaeth ar raglenni gwaith rhan ddeiliaid eraill gan gynnwys CNC ac ychwanegu'r cynlluniau yma at raglenni gwaith y cyngor. Mae modd wedyn cyflwyno yn gryno a chdir pa waith sydd ar law (yn gynnwys eraill) i leihau risgiau llifogydd ac erydiad mewndirol ac arfordirol i drigolion Gwynedd.

O ran yr ardaloedd, ble nad oes dwysedd uchel o eiddo mae hi'n annhebygol bydd cynlluniau traddodiadol i adeiladu amddiffynfeydd yn cael eu cymeradwyo (o fewn model ariannu presennol a mwy traddodiadol LLC) ac yn pasio'r meini prawf. Ond mae modd ariannu trwy ffynonellau arall o fewn LLC gyda chynlluniau yn canolbwyntio ar fan welliannau, gwytnwch cymunedol a chynlluniau addasrwydd mewn cymunedau arfordirol sydd gyda goblygiadau i'r dyfodol oherwydd newid hinsawdd.